AWS. No. 12
WG35.5 S7

# MARWNAD,

ER COFFADWRIAETH AM

## Y DIWEDDAR BARCH. DL. GRIFFITHS,

## Gweinidog yr Anymddibynwyr,

## CASTELLNEDD,

*Yr hwn a fu farw Ebrill y 1af,* 1846, *yn* 48 *oed.*

---

Cenir ar y dôn, "Diniweidrwydd."

GAN EDWARD JONES, MON.

*"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."*

---

1 Beth yw'r galar, och y trydar,
Sydd ar Forganwg lwysber lon;
Oherwydd colli athraw tirion
Mae Castellnedd yn brudd o'r bron:
Griffiths ddoniol, ddyn synwyrol,
Sydd yn farwol, gwn ei fod,
O waith ei golli wyla'r dynion
Ddagrau rhwyddlon îs y rhôd.

2 Yr oedd ei ddoniau gwyr ugeiniau
Yn rhai gorau yn ein gwlad;
Pregetha'r Iesu Grist yn amlwg,
A byd o'r golwg dan ei draed;
Cyhoedda'r Iesu yn Achubwr,
A Gwaredwr dynolryw;
Sylfaen ei bregethau yn bena,
Oedd y Meichiau doeth, a Duw.

3 Yn Zoar, Castellnedd, ceir dynion
Dan och'neidion trymion trist,

YR0530901

Oherwydd colli un mor agos
  Oedd at achos Iesu Grist ;
Mae yn y Felin, gwn ugeiniau,
  A'r Ynysfach mae bronau prudd,
Waith colli Griffiths, ddyn mor hynod,
  Mawr y syndod heddyw sydd.

4 'Rhoes gynghorion a rhybuddion
  I drigolion îs y nen,
Cyhoedda yr achos, O mor groyw,
  Bu Crist farw ar y pren ;
Gwerth y gwaed a ddywedai'n eo'n
  Wrth drigolion gwael y llawr :
A phregethai, mawr ei ddoniau,
  Iesu Grist y Meichiau mawr.

5 Mewn Cymanfa, bob areithfa,
  Griffiths oedd y pena' yn bod;
Cyrddau misol a chwarterol,
  Mawr ei reol îs y rhod.
Ceidwad enaid a gyhoedda
  Mewn llythyrenau doniau da ;
Yn awr dychwelwch oll cyn hunwch,
  Byth na waeddwch, Darfu'r ha'.

6 Rhodiodd Griffiths, ddyn oedd ddawnus,
  O mor gymwys gyda'r gair ;
Cynghorai ddynion o bob oedran
  I 'mofyn rhan yn Maban Mair :
Dywedai'n hynod am ddrwg pechod
  Pan yn 'mosod ar y maes ;
Cyhoeddai y geiriau i'r adyn gwaetha,
  Gwn o'r gorau eill gael gras.

7 Ond fe roddwyd Daniel Griffiths,
  Un fu'n barchus yn y byd,
Yn y beddrod gyda'r teulu,
  Nes daw codi'r meirw i gyd ;

Ond er fod ei gorff mewn daear,
Mae cred llawer yn mhob lle,
Fod ei enaid mewn hapusrwydd
Gyda'i Arglwydd yn y ne'.

8 Rhodiai ein daear, fel gwyr cannoedd
A sylfaenodd ar y sail,
Proffesai a phregethai yn bendant,
Mawr yw haeddiant Adda'r ail;
Dywedodd wrthym yn benodol,
Iesu yn rheol, dyma yr iawn;
Talodd ddyled merch yr Amoriaid
Pan d'rawodd dri o'r gloch brydnawn.

9 Mor glir dangosai'r ffordd i'r bywyd,
Gwlad y gwynfyd hyfryd hael,
A phregethodd Crist yn wrol,
A digonol i'r rhai gwael;
Eglurai'r ffordd i gadw'r enaid,
Gyda chariad rhediad rhwydd;
Crist a'i waed yn croesi'r biliai
A ddangosai yn ein gwydd.

10 Daniel Griffiths, athraw gweddus,
Pob dyn yn barchus iddo'n bod,
Mewn anrhydedd, Cymru a rodiai,
Mawr ei ddoniau, glana'i glod;
Weithiau byddai yn mysg y mawrion,
Gwych athrawon gwlad a thre';
Ei bleser oedd cynghori'r gwana,
Gwn, a'r llesga yn y lle,

11 Ond yn awr mae wedi myned,
'Cheir gweled mo'no îs y nen;
Mae'n mhlith cerubiaid a seraphiaid,
Y rhai sy'n llu tufewn i'r llen,
Williams, gynt o'r Wern, a'i blaenodd,
John Elias gafodd gwrdd,

Christmas Evans, Daniel Griffiths,
Sydd yn gwledda oddeutu'r bwrdd.

12 Er fod gwahanol o enwadau
Yn mysg dynion llymion llawr,
Yn y nef 'does dim ond moli
A chlodfori'r Meichiau mawr.
Daniel Griffiths a bregethodd
Ugain o flynyddoedd maith,
'Nawr mae gyda'r côr nefolaidd
Wedi diwedd yma ei daith.

13 Yn awr mae'r weddw yn alarus,
Gyda'r eglwys yn ddi-ble;
Ond fe all y Duw gorucha'
Ddanfon un a lanwa'i le;
Mae Duw yn cofio yn ei gariad
Y gweddwon a'r amddifaid sy';
Y sawl a ymddiriedo yn yr Iesu,
Caiff ganu'n llawen gyda'r llu.

14 Farwel byth i Griffiths dirion,
Mae'i gorff yr awrhon yn y pridd;
Ac yno bydd nes geilw'r udgorn,
Bawb i'r fanol farn a fydd.
'Dow'n ninau gyd i ddilyn Iesu,
Ddarfu'n prynu ar y pren,
Fel gallwn ganu ei glod yn gymhwys
Yn Maradwys wiwlwys wen.

---

D. Jones, Argraffydd, Merthyr.